



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
2016 Rhan 1 Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a
Chydnerthedd Ecosystemau –
Adroddiad 2022 Comisiynydd y
Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae pedair egwyddor sy'n sail i waith y Comisiynydd, sef:

- Statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- Y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Cynnwys

1	Cyflwyniad a chefnidir	1
	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	1
	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	1
	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	1
2	Polisi Amgylcheddol y Comisiynydd	2
3	Perfformiad amgylcheddol y Comisiynydd	2
4	Adrodd ar weithredu	3

1 Cyflwyniad a chefnidir

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hefyd yn pennu mai prif nod Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth arfer ei swyddogaethau'n unol a'r prif nod yma, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw:

- I statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- I'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny.
- I'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac
- I'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

1.2 Fel awdurdod cyhoeddus o dan Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r camau fydd yn cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

1.3 Mewn perthynas â bioamrywiaeth mae'r Comisiynydd yn meddiannu pedair swyddfa yng Nghymru. Nid yw swyddogaethau'r Comisiynydd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.4 Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn gorff cyhoeddus sydd wedi ei enwi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Serch hynny mae'r Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy wedi ei amlinellu yn Adran 5 y Ddeddf. O ystyried swyddogaethau'r Comisiynydd mae hyn yn ffitio Egwyddor Datblygu Gynaliadwy, wrth i'r Comisiynydd weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain o ran y Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn i ddatblygiad cynaliadwy, mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi cyfres o 'amcanion llesiant a chynaliadwyedd' drwy gyfrwng y Datganiad Polisi Cynaliadwyedd. Mae'r amcanion hyn yn helpu i ategu'r 'Amcanion Llesiant' a amlinellir yn Adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Polisi Amgylcheddol y Comisiynydd

- 2.1 Ar 1 Ebrill 2022, roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cyflogi 47 o bobl. Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd, gan wella'i reolaeth a'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus, bodloni cydymffurfiaid a rhwymedigaeth amgylcheddol (rheoleiddio a gwirfoddol fel ei gilydd) ac atal llygredd.
- 2.2 Mae'r Comisiynydd wedi nodi bod ei brif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o'r defnydd o ynni, cludiant, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa.
- 2.3 Mae ei Bolisi Cynaliadwyedd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:
 - Cydymffurfio â dyletswyddau statudol.
 - Integreiddio ystyriaethau cynaliadwyedd i'w benderfyniadau busnes pan fo hynny'n bosibl.
 - Sicrhau bod ei holl swyddogion yn hollol ymwybodol o'r Polisi Cynaliadwyedd a'u bod yn ymrwymedig i'w roi ar waith a'i wella.
 - Lleihau effaith pob gweithgaredd swyddfa a theithio ar gynaliadwyedd.
 - Sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'i Bolisi Cynaliadwyedd, a'u hannog i fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy cadarn.
 - Adolygu, adrodd yn flynyddol, ac ymdrechu'n barhaus i wella ei berfformiad cynaliadwyedd.

3 Perfformiad amgylcheddol y Comisiynydd

- 3.1 Yn unol â'r gofynion o dan y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 mae'r Comisiynydd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Polisi Cynaliadwyedd. Mae'r Cynllun mewn lle ers 2019. Roedd swyddfeydd y Comisiynydd wedi cau rhwng Mawrth 2020 a Medi 2022 oherwydd Covid-19. Oherwydd hyn mae gallu'r Comisiynydd i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Polisi Cynaliadwyedd ac adrodd ar faterion amgylcheddol wedi ei gyfyngu.
- 3.2 Er yr uchod, dyma enghreifftiau o sut mae'r Comisiynydd wedi gweithio tuag at gyflawni ei amcanion yn ystod y cyfnod adrodd:
 - Defnyddio cerbydau - nid yw'r swyddfa yn berchen unrhyw gerbydau, ond mae'n annog llogi cerbydau ar gyfer teithiau hir er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd. Anogir y swyddogion i rannu cerbydau ar gyfer teithiau swyddogol pan fo hynny'n ymarferol. Pan fo'n briodol, anogir defnyddio cludiant cyhoeddus. Oherwydd bod y swyddfeydd wedi cau am gyfnod hir yn ystod y cyfnod adrodd nid oedd y swyddogion yn teithio, ac mae hynny yn ei dro wedi cyfrannu at leihau ôl troed carbon y Comisiynydd.

- Cyfarfodydd – Oherwydd bod swyddfeydd y Comisiynydd wedi bod ar gau am fwyafrif y cyfnod adrodd, bu i'r mwyafrif o'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn rhithiol. Mae hyn eto wedi lleihau'r angen i deithio. Mae'r Comisiynydd bellach wedi magu polisi bod angen cynnal cyfarfodydd yn rhithiol pan fo hynny'n addas a phriodol.
- Rheoli papur - mae gan yr holl swyddogion fynediad i e-bost a'r rhyngwryd, ac felly nid oes angen argraffu fel rheol. Pan fydd swyddogion yn argraffu mae'r argraffwr wedi ei raglennu i fod yn argraffu ar ddwy ochr pob tudalen er mwyn lleihau gwastraff.
- Cynhyrchion - anogir cyflenwyr i ddefnyddio cynhyrchion amgylchedd cyfeillgar pan fo'n bosibl. Mae'r Comisiynydd yn defnyddio cynhyrchion papur amgylcheddol cyfeillgar. Mae'r gwaith o lanhau'r swyddfa yn cael ei wneud gan ddefnyddio cynhyrchion amgylcheddol cyfeillgar. Roedd hyn yn ofyniad o fewn dogfennau tendr ar gyfer apwyntio glanhawyr i rai o'n swyddfeydd yn ddiweddar.
- Gwaredu Gwastraff - defnyddir gweithdrefnau ar gyfer ailgylchu deunyddiau, yn cynnwys papur, cardfwrdd a rhai plastigau. Mae papur sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif yn cael ei waredu drwy ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol.
- Lleihau defnydd o drydan - mae goleuadau rhai o swyddfeydd y Comisiynydd yn diffodd eu hunain os nad oes symudiad o fewn yr ystafell. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r goleuadau yn cael eu gadael ymlaen yn ddiangen.

4 Adrodd ar weithredu

- 4.1 Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn adrodd ar faterion amgylcheddol yn ei adroddiadau blynyddol.
- 4.2 Yn ystod chwarter olaf 2022-2023 bydd Comisiynydd y Gymraeg yn adolygu ei gynllun sy'n nodi'r camau fydd yn cael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan Adran 6 o'r Ddeddf. Bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried ei ddulliau adrodd ar lwyddiant a chynnydd yn erbyn y Cynllun. Caiff y gweithrediad y cynllun yma ei gynnwys o fewn cynllun gweithredol 2023-2025.
- 4.3 Bydd sylw yn cael ei roi i'r materion canlynol wrth adolygu'r Cynllun:
 - Amcan NRAP 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.
 - Cynnwys ymrwymadau mewn cynlluniau corfforaethol
 - Cynnwys bioamrywiaeth a'r ddyletswydd a6 ym maes rheoli

- perfformiad, trwy Ddatganiadau Amgylcheddol, gwaith cynllunio busnes a monitro cyllidebau, systemau rheoli perfformiad, ac ymgynghoriadau neu archwiliadau mewnol
- Gwerthfawrogi bioamrywiaeth yn fwy effeithiol ac yn fwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau
 - Sicrhau bod swyddogaethau ledled y corff yn rhoi camau bioamrywiaeth ar waith ar sail busnes fel arfer
- Amcan NRAP 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
 - Lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu adnoddau
 - Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio
 - Amcan NRAP 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion
 - Sicrhau bod rhywun yn gyfrifol am sicrhau bod camau o blaid bioamrywiaeth yn cael eu rhoi ar waith – yn y pen draw, dylai'r Comisiynydd ei hun fod yn gyfrifol am hyn.
 - Sicrhau bod y ddyletswydd a6 yn cael ei monitro a'i hadolygu